*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Polisi Corfforaethol a Chynllunio** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Asesiad o Berfformiad Blynyddol 22/23** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau asesiad drafft o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ystod 2022/23 mewn perthynas â'r canlynol:

(i) ei gynnydd tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant hirdymor, a'i Amcanion Cydraddoldeb Tymor Canolig; a
(ii) y modd y mae'n cydymffurfio â safonau perthnasol mewn perthynas â'r Gymraeg.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da y llynedd tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant tymor hir. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy lwyddo i gyflwyno'r camau arfaethedig a amlinellir yng Nghynllun Gwella a Llesiant cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer 2022/23.

3 Gwnaed cynnydd cyson hefyd yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni Amcanion Cydraddoldeb 2020/24 yr awdurdod; a pharhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â Safonau perthnasol y Gymraeg.

**ARGYMHELLIAD**

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2022/23 (yn amodol ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os oes angen) i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30 Medi; a
ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn gryno a syml o elfennau allweddol yr adroddiad asesu.

**CEFNDIR**

5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod o dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth roi adroddiad cyhoeddus ar ei berfformiad, cynnydd a chydymffurfiaeth. Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn cynnwys:

i) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion a fydd yn cyfrannu at wella llesiant yn lleol a symud Cymru'n nes at gyflawni ei hamcanion llesiant. Ar ôl nodi'r amcanion hirdymor hyn, rhaid i'r Awdurdod gymryd pob cam rhesymol i'w dilyn ac adrodd yn gyhoeddus ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol am y cynnydd a wnaed ganddo.

ii) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion i wella'r hyn y mae'n ei wneud a chyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol am ei berfformiad mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol erbyn 31 Hydref;

iii) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio cynllun cydraddoldeb strategol ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y mae wedi'i wneud tuag at gyflawni ei amcanion cydraddoldeb; a

iv) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac adrodd yn flynyddol erbyn 30 Medi ar ei gydymffurfiaeth â'r Safonau hynny.

6 Er hwylustod, mae adrodd yn unol â'r pedwar uchod wedi'i ymgorffori mewn un ddogfen i'w chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**GWYBODAETH**

7 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol eleni yn agor gydag adrannau rhagarweiniol sy'n disgrifio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer adrodd, cyflwyno gwybodaeth am yr heriau a'r materion sy'n wynebu Cymru yn y dyfodol ynghyd â gwybodaeth am yr ardal a gwmpesir gan yr Awdurdod. Mae hyn yn darparu cyd-destun i'n helpu i gael dealltwriaeth o ddarpariaeth gwasanaethau'r Awdurdod a'i gyfraniad at les cymunedau Gogledd Cymru.

8 Mae rhan ganol yr Adroddiad Asesu yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r camau penodol a gymerodd yr Awdurdod y llynedd i gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant hirdymor. Fel yn adroddiad y llynedd, rhoddwyd mwy o bwyslais yn adroddiad eleni ar naratif ac astudiaethau achos sy'n dangos y gwahaniaeth gwirioneddol y mae gwaith yr Awdurdod yn ei wneud i fywydau pobl. Mae tystiolaeth o gynnydd yn erbyn pob gweithred wedi'i chynnwys yn yr asesiad.

9 Cafodd cyfyngiadau Covid-19 eu codi'n swyddogol yng Nghymru o 30 Mai 2022, fodd bynnag, wynebodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) heriau newydd wrth i'r 'Argyfwng Costau Byw' barhau ochr yn ochr â'r cynnydd parhaus i gyfraddau llog.

10 Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau o ganlyniad i danau damweiniol yn y cartref yn ystod y flwyddyn.

11 Mae'r rhan ganol hon o'r Adroddiad Asesu hefyd yn cyflwyno gwybodaeth am gydymffurfiaeth yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg. Ar 31 Mawrth 2023, nodwyd bod 757 neu 84% o weithwyr y Gwasanaeth, yn dilyn hunanasesiad neu gael eu hasesu, yn meddu ar rai sgiliau Cymraeg o leiaf, gyda 37% wedi'u dosbarthu fel siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn y gorffennol, aseswyd lefelau gallu iaith pob ymgeisydd oedd ar y rhestr fer ond yn fwy diweddar oherwydd amseriad/nifer y swyddi recriwtio, asesir y rhai sy'n cael cynnig swyddi i gadarnhau eu lefel er mwyn cynnig y cymorth sydd ei angen arnynt drwy'r cyfnod prawf. Am y bumed flwyddyn yn olynol, ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r camau niferus a gymerwyd gan yr Awdurdod i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog dewis iaith ar gyfer yr holl staff a defnyddwyr y Gwasanaeth hefyd yn cael eu disgrifio yn yr adran hon.

12 Disgrifir y cynnydd a wnaed yn ystod 2022/23 tuag at gyflawni pob un o chwe Amcan Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod yn yr adran ganol hon o'r Adroddiad Asesu. Trwy ystod o gamau gweithredu, mae'r Awdurdod wedi gallu cyfrannu at wella agweddau ar fywydau pobl o dan bob un o'r meysydd pwnc: bywyd ac iechyd; cyflogaeth; addysg; diogelwch personol; cynrychiolaeth a llais; a mynediad at wasanaethau, gwybodaeth ac adeiladau.

13 Mae rhannau olaf yr Adroddiad Asesu yn cynnwys gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad yng nghyd-destun Cymru ac adroddiad am sut mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ymrwymiadau o dan y 'Siarter Ymateb i Danau mewn Cartrefi i Gymru Gyfan'. Roedd y gweithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- ymdrin â galwadau 999/112 brys;
- rhybuddio ymateb brys o fewn 90 eiliad ar 86.1% o achlysuron, yn erbyn targed o 80%;
- mynychu 5,896 o ddigwyddiadau brys, gyda 2,011 ohonynt yn danau;
- cyflwyno sgyrsiau diogelwch tân mewn ysgolion i 18,001 o blant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol 1–4; a
- chwblhau 18,052 o Archwiliadau Diogel ac Iach

14 Mae gwybodaeth ychwanegol ar ddiwedd yr Adroddiad Asesu yn cynnwys canlyniad gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru a edrychodd yn benodol ar gynnydd yr Awdurdod i leihau ac atal galwadau tân diangen.

15 Mae'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân annomestig diangen y mae'n ymateb iddynt, ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a phroblemau capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig ar risg yn gynaliadwy.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r asesiad hwn yn disgrifio cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2022-23 mewn perthynas â chyflawni ei amcanion gwella a llesiant tymor hir mabwysiedig. |
| Cyllideb | Nid oes rhai wedi'u nodi. |
| Cyfreithiol | Mae'r ddogfen gyfunol yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011; a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| Staffio | Nid oes rhai wedi'u nodi. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae'r goblygiadau ar gyfer y nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn yr asesiad drafft. |
| Risgiau | Nid oes rhai wedi'u nodi. |